**Pwyllgor Rhanbarth Y De Orllewin Cymru SWWR-04-00(p.2)**

**Dyddiad:** Dydd Gwener, 16 Mehefin 2000

**Amser:** 10.00 - 1.00

**Lleoliad:** Clwb Cymdeithasol Penlan, Penlan, Abertawe

## ADOLYGIAD POLISI'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL AR GLUDIANT CYHOEDDUS

**Cyflwyniad i Bwyllgor Rhanbarthol De Orllewin Cymru**

**gan Asiantaeth Amgylchedd Cymru**

### Cefndir

1. Mae Asiantaeth Amgylchedd Cymru (AA Cymru) yn gwneud cyflwyniad i'r adolygiad hwn oherwydd ein dyletswydd statudol i gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Mae cludiant yn faes allweddol lle bydd datblygu cynaliadwy yn llwyddo neu'n methu ac ystyrir bod datblygu system gludiant cyhoeddus effeithlon ac effeithiol yn llwyddiannus yn ganolog i Gynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae gan AA Cymru ddyletswyddau cadwraeth ac atal llygredd hefyd ac effeithir ar ein gallu i gyflawni'r rhain mewn sawl ffordd gan gludiant (gweler 'papur allweddol' Grwp Ymgynghori ar Gludiant Cymru (GYGC) - Cynaladwyedd Amgylcheddol Cludiant yng Nghymru 1999).

   **Cludiant a'r Amgylchedd**

2. Roedd darparu system gludiant cyhoeddus effeithiol a chyfunol yn un o'r naw gweithred a ddynodwyd yn Adroddiad AA Cymru ar Gyflwr yr Amgylchedd yng Nghymru ('Amgylchedd Gweithredol i Gymru' AA Cymru 1999) a ddatblygwyd er mwyn mynd i'r afael â materion amgylcheddol pwysig.
3. Mae gan AA Cymru gyfrifoldeb, gydag eraill, am safon yr aer yng Nghymru a gall system gludiant cyhoeddus sy'n gostwng yr angen am ddefnyddio ceir preifat wneud cyfraniad gwerthfawr tuag at wella safon yr aer. Byddai gwella safon yr aer yn cael ei adlewyrchu mewn gwelliannau yn iechyd y boblogaeth. Amcangyfrifwyd fod 24,000 marwolaeth cyn pryd yn digwydd bob blwyddyn ledled Prydain o ganlyniad i aer o ansawdd gwael. (Pwyllgor ar Effeithiau Meddygol Llygredd Awyr

(PAEMLA), Adran Iechyd 1998). Byddai system gludiant cyhoeddus well hefyd yn dwyn buddiannau mwy cyffredinol ar ansawdd bywyd.

4. Yr un cyfraniad pwysicaf tuag at i gael cludiant cynaliadwy fyddai gostyngiad yn y nifer o filltiroedd a deithir mewn ceir preifat. Er y gellid cyflawni peth gostyngiad yn yr angen am deithio, y dull mwyaf tebygol ar gyfer gostwng y defnydd a wneir o geir yw gweld gyrwyr ceir a theithwyr yn symud at gludiant cyhoeddus.

**Materion Penodol i Dde Orllewin Cymru**

5. Mae nifer o faterion cludiant lleol sy'n berthnasol i'r adolygiad hwn:

   - Mae ansawdd aer yn Aberafan wedi mynd dros ben y safonau ansawdd aer ar gyfer gronynnau (PM10) o ganlyniad i ollyngiadau gan ddiwydiant a thrafnidiaeth ar draffordd yr M4. Yn ystod pedwar mis cyntaf 2000 roedd 20 diwrnod allan o 111 pan oedd y lefelau gronynnau yn 'gymedrol' neu'n waeth. Mae'r problemau yn Aberafan wedi arwain at ei enwi yn Ardal Reoli Ansawdd Aer dan y Rheoliadau Ansawdd Aer. Pe byddai mwy o ddefnydd ar gludiant cyhoeddus ar gyfer cymudo o'r dwyrain i'r gorllewin gellid gwella ar y broblem hon, er mae'n bwysig wynebu cyfraniad diwydiannau at ansawdd gwael yr aer hefyd.
   - Dylid dynodi polisïau cludiant cyhoeddus gwahanol ar gyfer ardaloedd gwledig a threfol a dylid gwneud pob ymdrech i osgoi awgrymu fod yr un atebion yn addas ar gyfer y ddau. Er bod De Orllewin Cymru yn cynnwys nifer o ardaloedd y gellid eu galw'n drefol, mae llawer o'r ardal yn wledig. Gallai natur wasgaredig y boblogaeth mewn ardaloedd gwledig arwain at atebion cludiant cyhoeddus confensiynol yn anymarferol ac fe all cynlluniau cludiant cymunedol fod yn fwy priodol.
   - Mae symud a storio olew crai ac olew pur ar gyfer cerbydau modur yn creu cyfleoedd niferus ar gyfer digwyddiadau o lygredd. Mae hon yn broblem arbennig yn Ne Orllewin Cymru lle mae rhwydwaith diwydiant olew sylweddol.
   - Mewn clymdrefi fel Abertawe mae angen cydleoli gorsafoedd bysiau a threnau er mwyn hwyluso newidiadau moddol, sy'n ei gwneud yn haws defnyddio cludiant cyhoeddus. Yn ychwanegol, dylid annog cyfuno'r defnydd o geir preifat a chludiant cyhoeddus trwy gynlluniau 'Parcio a Theithio' effeithiol.
   - Byddai ardaloedd gwledig yn Ne Orllewin Cymru yn cael budd petai llai o ddibyniaeth ar fod yn berchen sawl car, sydd ynddo'i hun yn aml yn arwain at amddifadu mwy ar economeg gymdeithasol cymunedau sydd eisoes dan anfantais economaidd.
   - Byddai gostwng nifer y ceir preifat mewn ardaloedd gwledig hefyd o fudd i boblogaeth bywyd gwyllt trwy ostwng nifer y creaduriaid a leddir oherwydd gwrthdrawiad â char, nifer sy'n cynyddu'n gyson. Amcangyfrifir fod mwy nag 1 miliwn o anifeiliaid yn marw ledled Prydain ar ffyrdd 'A' yn unig, yn ogystal â miliynau o adar ac amffibiaid.

**Polisi Cludiant Cyhoeddus**

1. Fel y nodwyd ym mharagraff 1 uchod, gwnaed llawer o waith perthnasol ar gludiant. Cred AA Cymru y dylid defnyddio gwaith GYGC yn adolygiad y Pwyllgor. Yn ogystal ag ystyried y brif ddogfen, awgrymwn y dylai nifer o bapurau GYGC gael eu bwydo i'r broses adolygu (yn arbennig, 'Cludiant Cyhoeddus sy'n seiliedig ar Ffyrdd', 'Cynlluniau Cludiant Gwyrdd' GYGC 1999). Y pwyntiau

allweddol a wnaed yng nghrynodeb gweithredol prif adroddiad GYGC, ‘Y Cludiant a Etifeddwyd yng Nghymru’ (1999), sy’n berthnasol i’r adolygiad, oedd:

- "Roedd y grwp yn cefnogi polisïau cludiant integredig y Llywodraeth; cred ei fod yn rhoi sylfaen gadarn y gallai’r Cynulliad adeiladu arno.
- Bydd angen i’r Cynulliad ac awdurdodau lleol roi mwy o flaenoriaeth i gludiant, ac archwilio dulliau ariannu arloesol i sicrhau cynnydd sylweddol mewn gwariant.
- Bydd y Cynulliad yn etifeddu pwerau cyfyng iawn mewn perthynas â chludiant cyhoeddus, yn arbennig y rheilffyrdd, yn ogystal â strwythur trefniadol tameidiog sy’n ymdrin â pholisi a rheolau cludiant.
- Mae angen golwg mwy strategol o faterion cludiant ar y lefel genedlaethol, a bydd raid i’r Cynulliad ystyried i ba raddau y dylai edrych ar gipio rheolaeth uniongyrchol o’r polisi a fframwaith reoli cludiant cyhoeddus.
- Dylid cynnal ymgyrch ar y cyd i roi gwybodaeth i’r cyhoedd am gludiant cynaliadwy."

1. Gyda golwg ar ddulliau o sicrhau cludiant integredig:

    - **Yn y tymor byr** – byddai AA Cymru yn argymell defnyddio dulliau gweithredu cytbwys i annog gwelliannau, gan osgoi pwysleisio un gwelliant arbennig, ond gan symud ymlaen trwy gyfrwng nifer o gamau cyraeddadwy. Disgrifir yr hyn sydd ei angen mewn dogfennau fel y rhai a gynhyrchir gan GYGC. Yr hyn sydd ei eisiau yw’r dulliau o sicrhau fod y gwelliannau angenrheidiol yn digwydd. Dylai llawer o welliannau gael eu gyrru ymlaen gan Gynlluniau Cludiant Lleol, ond bydd diffyg adnoddau yn broblem bob tro.

    - **Yn y tymor hwy** – Mae AA Cymru yn cefnogi sefydlu un neu fwy o Awdurdodau Cludiant Teithwyr i Gymru i hwyluso cyfuno gwahanol elfennau’r system gludiant cyhoeddus a rhoi un ffocws i faterion cludiant cyhoeddus. Byddai hyn yn helpu i oresgyn rhannu’r diwydiant cludiant cyhoeddus ac effaith rwygol cystadleuaeth rhwng y gwahanol elfennau.

    **Arian Strwythurol Ewrop (ASE)**

1. Pan ariennir prosiectau sy’n berthnasol i gludiant gan arian ASE, rhaid sicrhau fod y prosiectau yn gyson â Chynllun Datblygu Cynaliadwy’r Cynulliad Cenedlaethol. Awgrymai hyn fuddsoddi mewn prosiectau cludiant cyhoeddus yn hytrach na phrosiectau sy’n annog defnyddio ceir preifat. Mae’n annhebygol y byddai mwy na dyrnaid o brosiectau gwella’r rhwydwaith ffyrdd yn pasio’r prawf Datblygu Cynaliadwy.

**Addysg**

2. Dylai’r Cynulliad Cyhoeddus ystyried hyrwyddo ymgyrch addysg/hysbysebu, i dynnu sylw at y ffaith nad yw parhau fel yr ydym yn ddewis a bod rhaid i bawb newid eu harferion cludiant os ydym i osgoi effeithiau difrifol ar ansawdd bywyd yng Nghymru. Rydym yn argymell y dylid annog y canlynol:

    - Mwy o ddefnydd o gludiant cyhoeddus, yn arbennig wrth deithio i glymdrefi.

  - Mwy o rannu ceir, wedi ei hwyluso efallai gan safle Rhyngrwyd wedi ei noddi gan y Cynulliad Cenedlaethol i gyflwyno rhanwyr posib.
  - Mwy o gerdded a seiclo lle bo hynny'n bosib a lle bo'n ddiogel.
  - Osgoi teithio, trwy ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGC) e.e. gweithio o gartref a chynnal cynadleddau fideo.

1. Er nad yw'r cynigion hyn i gyd yn berthnasol i gludiant cyhoeddus, mae'n bwysig ein bod yn achub ar y cyfle y mae ffurfio'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei roi i symud oddi wrth feddwl am faterion cydberthnasol, megis cludiant, ar wahân.

**Rhyng-foddoli**

2. Dylai bod gofyn i awdurdodau lleol hyrwyddo cludiant integredig drwy hwyluso newidiadau mewn dulliau teithio. Elfen allweddol o hyn yw gosod gorsafoedd trenau a bysiau yn agos at ei gilydd. Nid yw hyn bob tro'n hawdd (c.f. Abertawe), ond mae'n angenrheidiol annog defnyddio cludiant cyhoeddus. Yn aml iawn, ni ellir cynnal dulliau byw modern pan gymer ormod o amser i deithio rhwng rhwydweithiau trenau a bysiau.
3. Rhaid i orsafoedd bysiau a threnau fod yn llefydd braf i dreulio amser ynddynt, gydag adnoddau ar gael sydd eu hangen ar y cwsmer. Bydd rhaid gwneud newidiadau mawr ymhob agwedd ar gludiant cyhoeddus er mwyn perswadio pobl fod dewisiadau eraill realistig ar gael yn lle defnyddio ceir preifat.

**Darparu Gwybodaeth**

4. Mae darparu gwybodaeth am gludiant cyhoeddus gan ddefnyddio pob dull sydd ar gael yn agwedd bwysig ar wella y defnydd ohono. Mae'n well gan sawl defnyddiwr achlysurol ddefnyddio eu ceir am na wyddant pa fws i'w ddal nag am faint y bydd raid iddynt aros. Dylai gwybodaeth am amserlenni a chostau teithio fod ar gael drwy'r canlynol, ymhlith pethau eraill:

  - Y Rhyngrwyd
  - Teletestun
  - Darpariaeth gwybodaeth mewn arosfannau bysiau a ddiweddarir yn gyson yn ôl lleoliad y bws ar y pryd ('amser real')
- Gwybodaeth am holl gludiant cyhoeddus Cymru ar gael ar un CD ROM.
  - Yn syth i ffonau symudol, wrth i'r dechnoleg ddatblygu.

**Twristiaeth**

1. Mae llawer iawn o gynhyrchu cyfoeth y dyfodol yn Ne Orllewin Cymru yn debygol o fod yn perthyn i dwristiaeth ac mae hyn yn dibynnu ar amgylchedd o ansawdd da. Bydd cael cludiant cyhoeddus da yn helpu i leddfu effeithiau negyddol ar yr amgylchedd a fydd yn digwydd os yw mwyafrif llethol twristiaeth o'r fath drwy gyfrwng ceir preifat.

**Crynodeb**

2. Byddai datblygu system gludiant cyhoeddus fodern a ddefnyddid yn helaeth gan bob aelod o gymdeithas yn dangos yn llawn werth sefydlu’r Cynulliad Cenedlaethol. Mae’r ffaith fod gofyn statudol i’r Cynulliad Cenedlaethol hyrwyddo Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn pwysleisio’r angen am system o’r fath, system fyddai’n cael effaith fuddiol iawn ar ansawdd bywyd pobl De Orllewin Cymru.

**Asiantaeth Amgylchedd Cymru**

**Mai 2000**